# hwb CAST

Mae'r Hwbcast yn gyfres o ddarllediadau llawn gwybodaeth a luniwyd i roi i fyfyrwyr yr holl wybodaeth hanfodol sydd ei hangen arnyn nhw cyn i'r flwyddyn newydd gychwyn.

P'un a ydych chi'n wyneb newydd ar y campws neu'n fyfyriwr sy'n dychwelyd, mae Hwblediadau â rhywbeth i chi! I wrando ar yr Hwblediadau, ewch i ap yr Hwb.

## CYLLID MYFYRWYR

Ni chewch eich cyllid tan i'ch cofrestriad gael ei gadarnhau. Bydd hyn yn digwydd ar ôl eich darlithoedd cyntaf a bydd yn cymryd 3-5 diwrnod gwaith i'w drosglwyddo wedi hyn. Os nad ydych chi wedi derbyn eich cyllid o fewn mis, cysylltwch â:

**hwb@pcydds.ac.uk**

## CYMORTH LLESIANT

Os ydych chi'n cael trafferth i reoli effaith eich iechyd ar eich astudiaethau, cewch ddefnyddio cymorth arbenigol i'ch helpu i ddatblygu sgiliau hunanreolaeth. Mae hyn yn cynnwys Cwnsela, Cyngor ar Lesiant, Mentora Iechyd Meddwl Arbenigol, a chymorth i ddefnyddio gwasanaethau allanol pan fo angen. Cewch weld yr holl wasanaethau Llesiant ar dudalen

**uwtsd.ac.uk/cy/gwasanaethau-myfyrwyr/cymorth-llesiant**

## CYSYLLTU Â'R HWB

**0300 131 3030 | hwb@pcydds.ac.uk | Sgwrsio Byw drwy Ap yr Hwb**

**Hefyd gallwch chi alw mewn i'n gweld ni yma:**

Caerdydd
Caerfyrddin
Abertawe

**Rydym ni ar agor:**
08:30 - 17:00 Dydd Llun – Dydd Iau
08:30 - 16:30 Dydd Gwener

## CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

**Desg Wasanaeth TG**
0300 500 5055 (24 AWR)

**Cymorth Dysgu**
anabledd@pcydds.ac.uk

**Rhaglen Cymorth i Fyfyrwyr**
0800 028 3766 (24 awr)

**Cymorth Ariannol**
cymortharian@pcydds.ac.uk

**Y Gofrestrfa**
cofrestrfa@pcydds.ac.uk

**@uwtsdstudents**



STUDENT hwb MYFYRWYR

# CANLLAW HANFODION MYFYRWYR

**Tîm yr Hwb Myfyrwyr yw'ch pwynt cyswllt cyntaf yn y Drindod Dewi Sant.**

Byddwn ni'n darparu gwasanaeth gwybodaeth cynhwysfawr ynghylch pob mater sy'n ymwneud â myfyrwyr a gallwn ni eich cyfeirio chi am gymorth arbenigol pan fo angen. Mae'r materion gallwn ni roi help gyda nhw'n cynnwys:

Cyllid | Cofrestru | Modylau | Moodle | Amserlen | Cymorth | Technoleg Gwybodaeth

**Yn y canllaw hwn rydym ni wedi amlinellu rhai o'r cwestiynau cyffredin bydd pobl yn ein holi ni amdanyn nhw.**

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

**hwb@pcydds.ac.uk**
**0300 131 3030**

## MEWNGOFNODI

**Ar gyfer holl systemau'r Drindod Dewi Sant bydd eich manylion mewngofnodi fel a ganlyn:**

**Enw Defnyddiwr:**
*1234567@student.uwtsd.ac.uk*

**Cyfrinair:**
*dob01.01.01*

Yn lle'r rhifau yn yr enw defnyddiwr, rhowch eich rhif myfyriwr 7 digid a newid y rhifau yn y cyfrinair i'ch dyddiad geni yn y fformat dd.mm.bb. **Cofiwch gynnwys yr atalnodau llawn rhwng y rhifau!**

I gael mynediad at MyTSD yn unig, defnyddiwch eich rhif myfyriwr fel eich enw defnyddiwr.

## AILOSOD CYFRINAIR

Gallwch chi newid neu ailosod eich cyfrinair drwy'r Porth Hunanwasanaeth Ailosod Cyfrinair. Mae'n galluogi'r holl fyfyrwyr i ailosod eu cyfrinair heb orfod cysylltu â'r Ddesg Wasanaeth TG.

I ailosod eich cyfrinair, ewch i **uwtsd.ac.uk/cy/cyfrinair**

## PARCIO

**Faint bydd angen i fi ei dalu am fy nhrwydded barcio?**
Ni fydd y Brifysgol yn codi tâl am drwyddedau parcio staff na myfyrwyr.

**Sut gallaf i wneud cais am drwydded barcio?**
Gallwch chi wneud cais am drwydded barcio drwy fynd i **cpppermitsystem.co.uk/universityofwalestrinitysaintdavid**

Rhaid defnyddio'ch cyfeiriad e-bost myfyriwr yn y Drindod Dewi Sant wrth gofrestru.

Ar gyfer ymholiadau'n ymwneud â pharcio, anfonwch e-bost i **parking@uwtsd.ac.uk**



## AP YR HWB

**Mae Ap yr Hwb yn hanfodol i bob myfyriwr yn y Drindod Dewi Sant.**

Gallwch chi weld eich amserlen, hanfodion am eich cwrs a Cherdyn Adnabod Digidol yn uniongyrchol o'r ap.

Mae hyd yn oed offeryn hwylus ar gyfer help a rhoi gwybod am namau, felly os oes rhywbeth o'i le gallwch chi roi gwybod amdano'n syth drwy'r ap!

## DILYSU AML-FFACTOR (MFA)

I gael mynediad at systemau'r Drindod Dewi Sant, bydd angen i chi greu cyfrif MFA. Mae canllaw hwylus ar gael i'ch arwain drwy'r broses yn:

**uwtsd.ac.uk/cy/tg**

Os oes arnoch angen cymorth wrth osod neu newid eich dull MFA, cysylltwch â'r Ddesg Wasanaeth TG.

## BWRSARÏAU

Mae bwrsarïau'n gymorth ariannol y gall myfyrwyr cymwys wneud cais amdano. Mae llawer o fwrsarïau ar gael, ac mae'n debygol bod o leiaf un sy'n addas i bob myfyriwr. Am ragor o wybodaeth gan gynnwys sut i wneud cais, ewch i:

**hwb.uwtsd.ac.uk/dashboard/myfyrwyr**

- A dewiswch y Teilsen Cymorth Ariannol.

## ARGRAFFU

I argraffu, ewch i **print.uwtsd.ac.uk/user** i ychwanegu credyd argraffu. Mae angen ychwanegu isafswm o £1.

Unwaith y byddwch wedi gwneud hyn bydd angen i chi ddewis yr argraffydd o'r enw: Print-Argraffu. Gellir anfon eitem i'w hargraffu o unrhyw cyfrifiadur ar y rhwydwaith, bydd eitemau yn cael ei storio'n ddiogel yn eich ciw personol am hyd at 3 diwrnod. Yna gallwch ei ryddhau i'w argraffu o unrhyw argraffydd prifysgol.

Am gymorth ychwanegol ewch i:
**www.uwtsd.ac.uk/cy/tg**

## EITHRIO O'R DRETH GYNGOR

Gall myfyrwyr amser llawn sydd wedi cofrestru lawrlwytho ac argraffu Llythyr Eithrio o'r Dreth Gyngor o MyTSD. Dewiswch "Cofrestru" o'r ddewislen a dylai fod llythyrau ar gael i chi eu dewis.

Bydd y Llythyr Eithrio o'r Dreth Gyngor wedi'i bersonoli i bob myfyriwr, ac mae ar gael i bob myfyriwr cymwys.

## CERDYN ADNABOD

Bydd angen i chi fod wedi lanlwytho ffotograff er mwyn i'ch cerdyn adnabod gael ei greu. Os ydych eisoes wedi lanlwytho llun i MyTSD, dylai eich cerdyn adnabod fod yn barod i'w gasglu yn eich digwyddiad croeso. Os nad ydych wedi lanlwytho llun eto, **mewngofnodwch i MyTSD** a chliciwch ar y tab **'Dogfennau gofynnol cyn cofrestru'**.

Mae'r teclyn lanlwytho lluniau ar frig y dudalen hon. Unwaith y byddwch wedi lanlwytho'ch llun, dylai eich cerdyn adnabod fod yn barod i'w gasglu o fewn 48 awr. Gallwch gasglu eich cerdyn o ddesg yr Hwb.Os ydych chi'n cael anhawster lanlwytho llun, e-bostiwch ef ynghyd â'ch rhif myfyriwr i **hwb@pcydds.ac.uk**